# GWASANAETH CA3

## THEMA: NADOLIG A THEULU

## LLEFARU

Ar gyfer y gwasanaeth hwn bydd angen tua 6 llefarydd, ond gall yr union nifer ddibynnu ar faint o ddisgyblion sydd ar gael i gymryd rhan. Awgrym yn unig felly yw'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ei osod allan – gellir cynnwys mwy neu lai o lefarwyr, gan uno neu wahanu darnau o'r sgript.

## ELFEN GERDDOROL

Mae'n debyg y bydd gan bob ysgol drefn wahanol o gynnwys deunydd cerddorol wrth ymgynnull mewn gwasanaeth neu gyfarfod boreol. Os yw'n arferol dewis emyn o blith taflen emynau'r ysgol, yna gellir dewis un ar thema **cariad at deulu/ carol .** Fel arall gellir dewis chwarae neu berfformio elfen gerddorol addas yn ôl dewis yr athro. Mae awgrym pellach yn y sgript, os yw defnyddio dolen o'r rhyngrwyd yn bosibl yng nghyd-destun yr ymgynnull.

LLEFARYDD 1: Mae'n agosáu at yr adeg honno o'r flwyddyn pan fydd dathlu'r Nadolig yn yr awyr. Ry'n ni'n dechrau clywed caneuon yr Ŵyl, yn garolau a hen ffefrynnau. Mae cyfrinachau ar y gwynt wrth i bobl ddechrau meddwl am brynu anrhegion i'w gilydd. Mae'n amser cyffrous, yn enwedig os oes plant bach yn eich teulu. Bydd rhai teuluoedd yn paratoi ers wythnosau, eraill yn ei gadael nes i dymor yr ysgol orffen a bod naws ymlaciol ym mhob man.

LLEFARYDD 2: Gant o flynyddoedd yn ôl i eleni ganwyd bachgen yn Abertawe o'r enw Dylan Thomas. Daeth yn fardd byd-enwog, ac ar ôl tyfu'n ddyn fe ysgrifennodd stori fer yn Saesneg o'r enw 'A Child's Christmas in Wales', gan ddefnyddio holl atgofion ei ddathliadau teuluol wrth dyfu. Stori yw hi sy'n disgrifio holl hwyl a strach y Nadolig ar ei aelwyd pan oedd yn blentyn, yng nghanol eira mawr. Wrth ddarllen, mae'n glir mai un o'r pethau pwysicaf i Dylan Thomas oedd cwmni ei ffrindiau a'i deulu. Ydy, mae'n disgrifio derbyn anrhegion ac ati - ond nid pethau drud iawn oedden nhw, rhaid dweud. Yn bennaf, mae ei atgofion am y bobl oedd yno'n rhannu'r dydd, neu'n cysgu'n braf ar ôl bwyta llond bol o ginio.

LLEFARYDD 3: Roedd ei deulu'n bwysig iawn i Dylan Thomas, ac roedd wrth ei fodd yng nghwmni ei antis a'i wncwls. Eu cwmni nhw oedd yn gwneud y Nadolig yn arbennig ac yn hapus iddo. Mae'n siŵr y byddai'n canu o gylch y piano a'r hen garolau yn dod allan, yn ogystal â thaflu peli eira. Ond rhaid cofio nad yw pawb yn dathlu'r Ŵyl 'chwaith, nac yn ei mwynhau. Mae crefydd arall gan rai pobol ac maen nhw'n dathlu gwyliau gwahanol ar y calendr. Mae pobl eraill yn teimlo'n unig adeg y

Nadolig, heb gwmni teulu a ffrindiau.

Mae eraill yn ei chael hi'n anodd talu am gostau Nadolig, ac mae hynny'n creu gofid.

LLEFARYDD 4: Ydy pethau fel hyn yn eich gofidio chi? Tybed oes 'na bethau y gallwn eu gwneud i sicrhau bod y Nadolig yn achlysur o atgofion braf? Allwn ni ddim gwneud y Nadolig yn berffaith i bawb, ond dyma rai syniadau syml.

Beth am wneud yn siŵr eich bod yn cynnig helpu gwneud y Nadolig yn braf i bawb yn eich cartref, yn lle disgwyl bod pawb arall yn ei wneud yn braf i chi - cynigiwch help parod gyda gwên ar eich wyneb, er efallai eich bod yn casáu crafu tatws neu lapio anrhegion.

LLEFARYDD 5: Beth am *wneud* anrhegion yn lle prynu rhai eleni? Mae'n dangos eich bod wedi meddwl am y person yn arbennig, yn lle dewis unrhyw beth. Mae'r meddwl yn fwy gwerthfawr na dim byd arall.

LLEFARYDD 6: Byddwch yn hwyliog dros yr Ŵyl – peidiwch bod yn farus am anrhegion nac yn ddrwg eich hwyl os na chewch chi bethau drud. Dim ond stwff yw'r cyfan. Diolchwch gyda gwên am bopeth – hyd yn oed os oes llygedyn o siom yn eich calon wrth dderbyn y trydydd pâr o sanau llachar.

LLEFARYDD 1: Yn olaf, edrychwch ar ôl aelodau hŷn eich teulu. Mae nain a taid, mam-gu a tad-cu, hen antis ac wncwls wrth eu bodd yng nghwmni pobol ifanc garedig a hwyliog. Gwnewch atgofion hapus a chynnes iddyn nhw, fel y rhai oedd gyda Dylan Thomas yn ei blentyndod yntau - er efallai bod angen tipyn o amynedd weithiau!
Mae Al Lewis, y canwr o Gymru, wedi defnyddio'r stori 'Nadolig Plentyn yng Nghymru' yn sail i gân newydd. Gwrandewch ar ei eiriau, ac wrth edrych ar y fideo yma, fe welwch fod nifer o'r golygfeydd wedi eu ffilmio y tu mewn i gartref Dylan Thomas ei hun ar Cwmdonkin Drive, Abertawe.

http://www.youtube.com/watch?v=tqUx_LgJGJo

NODYN: Os nad yw'n bosib dangos y fideo yma, yna gall y llefarydd gyflwyno carol i'w chanu gan bawb, neu gellir cael unawd dymhorol gan ddisgybl, e.e. datganiad o 'Nadolig, Pwy a Ŵyr?' gan Ryan Davies.

## MUNUD I FEDDWL

LLEFARYDD 2: Mae'r Nadolig yn adeg hardd o'r flwyddyn am lawer o resymau – mae goleuni ym mhob man, a disgleirdeb ar wynebau plant ac yn yr addurniadau pert. Mae'n lliwgar ac yn gynnes, ac yn gyfle i rannu hapusrwydd. Ceisiwn ein gorau i ofalu am y pethau bach sy'n creu atgofion gorau bywyd – sgwrsio, rhannu, gwenu, chwerthin, rhoi a derbyn gyda chariad. Nid mewn anrhegion drud mae mesur hapusrwydd dros y Nadolig, ond mewn geiriau a gweithredoedd bach caredig sy'n dod â phleser syml. Gobeithio y gallwn ni helpu i wneud i'r Nadolig eleni fod yn un hyfryd iawn i'n teulu, ein ffrindiau a'n cyd-ddyn, a thrwy hynny ei wneud eto'n Nadolig i'w gofio.